

Aelodaeth unigol CYSYLLTU | CONNECT



Mae gennych ddi-ddordeb personol neu broffesiynol mewn cydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion.

Ymuno â chymuned o ymarferwyr!

- ❖ Rydych wedi ymrwymo i'r dull o weithio ac yn darganfod sut i'w ddefnyddio yn eich gwaith a/neu eich cymuned.
- ❖ Rydych yn cysylltu, rhannu a dysgu gydag aelodau eraill (dinasyddion a gweithwyr proffesiynol) ar draws sectorau ar hyd a lled Cymru, ar-lein ac ar lefel personol.
- ❖ Rydych yn derbyn ebost misol gyda diweddariadau ar gydgynhyrchu a hysbysebion ar gyfer digwyddiadau.
- ❖ Rydych yn mynychu sesiynau Cydgynhyrchu rhanbarthol dan arweiniad aelodau.
- ❖ Gallwch ymuno â'r sesiynau 'Gofynnwch unrhyw beth' gydag ymarferwyr eraill ym maes cydgynhyrchu.
- ❖ Gallwch gymryd rhan mewn 'Copro Convos' (gweminarau ar thema dysgu ac arferion) a themâu cydgynhyrchu a chyfrannu, dysgu arfau newydd gan gynnwys technegau monitro a gwerthuso.
- ❖ Byddwch yn derbyn rhybudd cynnar o Gynhadledd Flynyddol Cydgynhyrchu Cymru.
- ❖ Gallwch ddangos eich arferion a dathlu eich prosiectau, rhannu straeon a datrys heriau gydag aelodau eraill.
- ❖ Gallwch ddefnyddio a chyfrannu at adnoddau, astudiaethau achos a sylfaen tystiolaeth gynyddol.
- ❖ Ceir mynediad at aelodau'r rhwydwaith sydd â ffocws arbenigol (hyfforddiant, ymchwil, fesul sector, fesul pwnc, a mwy).
- ❖ Gallwch gyfrannu at lais y gymuned cydgynhyrchu er mwyn cael dylanwad ar bolisi a'r broses o wneud penderfyniadau.
- ❖ Gallwch fod yn rhan o sefydliad sy'n sefyll dros Gymru decach a mwy cynaliadwy, lle mae gan bawb lais.

AM DDIM AM BYTH!

Cofrestrwch eich hun yn copronet.cymru

Aelodaeth i Sefydliadau TYFU | GROW




Mae gan eich sefydliad ymrwymiad strategol a gweithredol i gydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion.

Ddatblygu hyrwyddwyr, arferion trefniadaethol, a'ch effaith!

- ❖ Gallwch ddangos ymrwymiad eich sefydliad i ddulliau gwaith a seilir ar asedau a gwerthoedd, ac sy'n canolbwyntio ar unigolion; gallwch arddangos bathodyn digidol ar eich gwefan.
- ❖ Cewch fynediad at wybodaeth glir a chyfredol ar holl agweddau ar gydgynhyrchu, cyfraniad dinasyddion a meysydd gwaith cysylltiedig, trwy eich hyrwyddwyr, ar gyfer pawb yn eich sefydliad.
- ❖ Bydd gan eich hyrwyddwyr fynediad at holl fanteision aelodaeth unigol fel sylfaen, gan gynnwys: cyngor, cyfleoedd i ddysgu a rhannu; Cyfarfodydd Cydgynhyrchu rhanbarthol, sesiynau 'Gofynnwch Unrhyw beth' ar lein, a gweminarau misol ar thema dysgu ac arferion; yn ogystal â rhybudd cynnar am Gynhadledd Flynyddol Cydgynhyrchu Cymru.
- ❖ Yn ogystal, bydd hyrwyddwyr yn mynychu sesiynau cynhwysfawr i hyfforddi'r hyfforddwr ar thema "cyflwyniad i gydgynhyrchu" bob blwyddyn, er mwyn dysgu'r wybodaeth a dysgu am yr adnoddau er mwyn rhoi'r hyfforddiant ar waith yn ogystal â defnyddio'r sgiliau o fewn eich sefydliad, (gyda sesiynau gloymi a diweddariadau).
- ❖ Chi sy'n dewis y bobl i'w henwebu fel hyrwyddwyr (a gallwn ni helpu gyda'r broses honno).
- ❖ Gall eich hyrwyddwyr fod yn aelodau staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a dinasyddion neu ddefnyddwyr gwasanaethau fydd yn gweithio o fewn (neu'n agos gyda'ch) sefydliad er mwyn hybu eich nodau cydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion.
- ❖ Mynediad at yr holl fanteision hyn am gost ymaelodi sy'n cyfateb i £50 fesul hyrwyddwr y flwyddyn.

Costau a manylion ar y dudalen nesaf
Cysylltwch helo@copronet.wales

Partneriaeth Rhwydwaith HELPU | HELP



Mae gan eich sefydliad arferion cadarn ym maes cydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion.

Gefnogi datblygu sefydliadau eraill gydag aelodau, a hybu agenda cydgynhyrchu yng Nghymru.

- ❖ Fynediad at holl fanteision aelodau sefydliadol y Rhwydwaith, a bydd hyrwyddwyr enwebedig yn mynd ar hyfforddiant blynyddol ac yn cael cysylltiad gydag aelodau eraill.
- ❖ Cefnogaeth a chynnwys aelodau unigol y Rhwydwaith yn eich ardal leol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad.
- ❖ Rhannu eich profiad ym maes cydgynhyrchu ar draws cymuned arferion y Rhwydwaith trwy'r sylfaen gwybodaeth, cylchlythyrau a digwyddiadau.
- ❖ Cymryd rhan mewn a helpu trefnu digwyddiadau sy'n hyrwyddo cydgynhyrchu yn eich ardal leol neu faes gwasanaeth.
- ❖ Galluogi hyrwyddwyr i ddarganfod, dysgu gan a chefnogi arferion cydgynhyrchu mewn sefydliadau eraill, trwy gynnal asesiadau cydgynhyrchu'r Rhwydwaith.
- ❖ Asesiad blynyddol o arferion cydgynhyrchu'r sefydliad, a gynhelir gan aelodau eraill y Rhwydwaith gan ddefnyddio Arf Archwilio Cydgynhyrchu (ar gyfer sefydliadau mawr, gellir enwebu swyddogaethau neu wasanaethau penodol i'w harchwilio).
- ❖ Cymeradwyaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru ar gyfer arferion cydgynhyrchu eich sefydliad, er budd gweithgareddau a chynigion tendro.
- ❖ Camau dilynol yn sgil yr asesiad blynyddol trwy ddiwrnod o ymgynghori i'ch helpu cryfhau datblygiadau o safbwynt cydgynhyrchu, a gostyngiad o 10% ar becynnau ymgynghorol y Rhwydwaith ar gyfer cefnogaeth bellach.
- ❖ Lleihad o 50% ar gost cynadleddau a digwyddiadau a drefnir gan y Rhwydwaith.

Costau a manylion ar y dudalen nesaf
Cysylltwch helo@copronet.wales

Aelodau Sefydliadol (TYFU | GROW) a Phartneriaeth y Rhwydwaith (HELPU | HELP)

Trwy eich ffioedd aelodaeth, gallwn gynnal Rhwydwaith bywiog ac effeithiol o unigolion a grwpiau sy'n troi cydgynhyrchu trawsffurfiadol yn realiti yng Nghymru. Rydym yn fodlon derbyn cymorth ymarferol yn lle cymorth ariannol gan rai sefydliadau: os bydd hynny'n golygu y gallwch gyfrannu, cysylltwch â ni i drafod hyn!

Y print mân:

- Cynllun aelodaeth am flwyddyn yw, sy'n rhedeg o 1af Ebrill – 31ain Mawrth, sy'n daladwy trwy anfoneb.
- Os byddwch yn ymaelodi yn ystod y flwyddyn, telir ffi pro rata ar sail misoedd cyflawn.

Nifer yr hyrwyddwyr enwebedig	Aelodaeth flynyddol, graddfa lawn (e.e. sector cyhoeddus, sefydliadau mawr)	Aelodaeth flynyddol, graddfa ostyngedig (e.e. sectorau gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau bach/canolig eu maint)
1 - 5	£200+TAW (£240)	£100+TAW (£120)
6 - 10	£400+TAW (£480)	£200+TAW (£240)
11 - 20	£800+TAW (£960)	£400+TAW (£480)
21 - 50	£2,000+TAW (£2,400)	Siarad â ni!
51 +	Siarad â ni!	---

Mae'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru Cyf yn sefydliad dielw annibynnol sy'n gweithio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy gyd-gynhyrchu a chynnwys dinasyddion.

copronet.cymru | helo@copronet.wales

Cwmni dielw cyfyngedig trwy warant, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.
Rhif cwmni 12009551. Rhif TAW 328 6382 80.



Rhwydwaith
Cydgynhyrchu
Cymru

Co-production
Network
for Wales

Pawb gyda'i gilydd
All in this together